



CYNGOR BRO MORGANNWG

Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2017 – 2020

Rhagfyr 2017

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Uchelgeisiol

Agored

Gyda'n gilydd

Balch

Cynnwys

Rhagair	3
Beth yw Ymgysylltu â'r Cyhoedd?.....	3
Beth sydd Wrth Wraidd Gwella Gwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd	4
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	4
Cynllun Corfforaethol 2016-20.....	6
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	7
Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru	8
Ymgysylltu â phawb yn y gymuned.....	10
Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifainc (0-25 oed).....	11
Ymgysylltu â Phobl Hŷn	12
Ymgysylltu â grwpiau eraill a ddiogelir	12
Cymorth Corfforaethol.....	13
Cyfrifoldeb a Rennir.....	14
Rhagor o Ganllawiau	15

Rhagair

Mae ymgysylltu cyhoeddus yn rhan bwysig o fusnes pob dydd Cyngor Bro Morgannwg. Yn rhinwedd hynny, un o werthoedd craidd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yw '**cyd**weithio fel tîm sy'n cysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sy'n ymrwymo i wasanaethau o safon'. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn gwireddu ei weledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg. Mae ymgysylltu effeithiol yn hanfodol i wireddu'r rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau yn y Cynllun Corfforaethol.

Rydym ni am roi dinasyddion wrth ganol ein penderfyniadau a sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan mewn modd sy'n gyfleus iddyn nhw.

Gobeithiwn y bydd pob un ohonoch am fod yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod dinasyddion a chymunedau'n cael mwy o ddylanwad ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu defnyddio a'r ardaloedd lle y maen nhw'n byw. Y nod yw cydweithio i wireddu gweledigaeth y Cyngor, sef 'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'.

Beth yw Ymgysylltu â'r Cyhoedd?

Ymgysylltu â'r cyhoedd yw'r broses y mae sefydliadau'n gwahodd trigolion a rhanddeiliaid allweddol i fod yn rhan o ystyriaeth, deialog a chamau gweithredu mewn perthynas â materion sy'n bwysig iddyn nhw. O wneud hynny'n effeithiol, mae'n fodd gwirioneddol i drigolion ddweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac mae'n rhoi cyfoeth o wybodaeth i ni sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau pwysig. Po fwyaf effeithiol y mae'r gwaith ymgysylltu, gorau'n y byd y bydd gwasanaethau.

Ymgysylltu: Proses ymarferol sy'n croesawu pobl i gymryd rhan, gan gynnwys ystod eang o ddulliau a thechnegau gwahanol y gall pobl eu defnyddio i ddylanwadu ar bolisiau a gwasanaethau a'u llywio.

Ymgynghori: Proses ffurfiol i lunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau holi barn grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb.


Cyfranogi: Mae pobl yn ymwneud yn ymarferol â llunwyr polisïau a chynllunwyr gwasanaethau yn gynnar yn y broses o gynllunio polisïau a gwasanaethau a'u hadolygu.

Beth sydd Wrth Wraidd Gwella Gwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwmo i wella'r modd rydym ni'n ymgysylltu â'n trigolion a'n rhanddeiliaid allweddol yn barhaus ynghylch penderfyniadau.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Cyngor wedi croesawu ei ddyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef deddf sy'n unigryw i Gymru. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant y mae'n rhaid i'r Cyngor a chyrrff cyhoeddus eraill gyfrannu atyn nhw.



Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i'r Cyngor 'ymddwyn mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb leihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain, drwy ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.' Er mwyn galluogi'n hunain i wneud hynny, rhaid i ni ymgysylltu â thrigolion lleol, sefydliadau, y gymuned fusnes ac ymwelwyr â'r Fro.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu pum ffordd o weithio sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ac mae'r rhain yn golygu cynnwys eraill mewn pethau. Rhaid i ni adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a defnyddio gwybodaeth a phrofiad y sawl sy'n byw ac sy'n gweithio yn yr ardal. Dyma'r bum ffordd o weithio:

Hirdymor



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Yn gryno, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella pob agwedd ar lesiant. I wneud hynny, rhaid i gyrff cyhoeddus wneud y canlynol:

- meddwl yn fwy hirdymor;
- gweithio'n agosach gyda phobl cymunedau a'i gilydd;
- ceisio atal problemau; a
- rhoi dull mwy cydgysylltiedig ar waith.

Mae Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus y Cyngor yn hollbwysig o ran sicrhau ein bod yn cyfrannu at y nodau a'n bod yn cyflawni'n dyletswyddau yn y Ddeddf.


Cynllun Corfforaethol 2016-20

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar bedwar Deilliant Llesiant ac wyth Amcan Llesiant sy'n fframwaith ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol ac sy'n nodi sut y byddwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol mewn ffordd integredig.

Dyma'n pedwar Deilliant Llesiant:

- Bro Ddiogel a Chynhwysol
- Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac sy'n Ffynnu
- Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant
- Bro Lesol ac Iach

Drwy gyflawni'r deilliannau hyn, byddwn yn cyflawni'n gweledigaeth, sef **'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'**.



Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i *'gydlynu gwaith ym mhob rhan o'r Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n*

effeithiol a'u bod yn rhoi llais gwirioneddol i drigolion'. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu'n offeryn angenrheidiol i helpu i wneud i hynny ddigwydd.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn aelod o 'Ein Bro', y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gafodd ei sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n dod â chyrrff cyhoeddus ynghyd i wella llesiant ac i weithio mewn partneriaeth i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.



Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi pennu pedwar amcan llesiant gan gynnwys '**Galluogi pobl i fod yn rhan o bethau, i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol ac i lywio gwasanaethau lleol**'. Mae'r amcanion hyn yn fframwaith ar gyfer Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, 'Ein Bro – Ein Dyfodol' a chynhaliwyd Asesiad Llesiant yn sail iddyn nhw. O ran yr amcan hwn yn benodol, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi amlinellu'r hyn y mae am ei gyflawni erbyn 2050 ac mae hynny'n cynnwys:

'Clywir llais pob un ledled y Fro, caiff pob un y cyfle i gyfranogi yn y gwaith o lywio gwasanaethau lleol ac mae pob un yn hyderus y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu gweld y gwahaniaeth y mae eu cyfranogiad wedi ei wneud. Mae gwaith o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn gydgyssylltiedig Mae pobl yn ei chael yn hawdd ac yn gyfleus cyfathrebu â ni ... Mae pobl o bob cefndir ac oed yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a chyflawni datrysiadau i broblemau lleol ac mae'r grym yn eu dwylo i gydweithio i nodi ac atal problemau ... Gwireddir manteision eang ymwneud â bywyd cymunedol ac mae cynhwysiant ehangach yn helpu i wella iechyd a lles, i wneud cymunedau'n fwy cydlynus ac i leihau unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.'

Mae camau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer y pum mlynedd nesaf a hwythau'n gamau cyntaf tuag at gyflawni hynny a thuag at gyfrannu at weledigaeth ehangach y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Fro

erbyn 2050. Dyma gamau gweithredu perthnasol yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Mabwysiadu [Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#).
- Ymchwilio i arfer gorau ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn datblygu dulliau newydd addas i'w rhoi ar waith yn lleol.
- Cynhyrchu pecyn cymorth i bartneriaid er mwyn sicrhau fod ein gweithgareddau ymgysylltu yn fwy cydlynol.
- Gweithio gyda'r gymuned leol i nodi a datblygu project o fewn un o'n cymunedau mwyaf amddifad sy'n cynnwys y gymuned o'r dechrau'n deg i bennu'r hyn sydd ei angen a'r datrysiad gorau.
- Datblygu ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ein cymunedau lleol a sut y gallwn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn eu cymuned.

Mae'r Cyngor yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a bydd yn rhinwedd hynny'n gweithio gyda'i bartneriaid i roi'r camau hyn ar waith, a hwythau'n gyson â'r hyn yr ymrwymwyd iddo yng Nghynllun Corfforaethol a Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus y Cyngor. Maen nhw'n helpu i ddarlunio'r bum ffordd o weithio a phwysigrwydd cydweithio, cydgysylltu'n gwaith a phwysigrwydd cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith o lywio'n gwasanaethau i daro'r nod nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn llwyddo i gyflawni'r nodau llesiant a gwella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, mae'n hollbwysig cynnig ein cymunedau lleol.

Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gesglir yn rhan o broiectau ymgysylltu'n ddibynadwy, ac y cyflawnir gwaith ymgysylltu i safon dda ym mhob achos, dylid cynnal pob prosiect yn unol ag *Egwyddorion Cenedlaethol*

Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru gan sefydliad Participation Cymru, a Safonau Ymgysylltu Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg.

Yn yr *Egwyddorion*, disgrifir nodweddion gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd sydd o ansawdd dda. Mae'r Safonau Corfforaethol yn cynrychioli arfer gorau ac felly maen nhw'n nodi'r paramedrau sylfaenol ar gyfer gwaith ymgysylltu ystyrlon.

Egwyddorion Cenedlaethol	Safonau Corfforaethol
Cynllunnir gwaith ymgysylltu'n effeithiol er mwyn gwneud gwahaniaeth.	Rhaid pennu nodau ac amcanion clir ar ei gyfer – mae'r rhain yn amlinellu'n glir yr hyn y gall y sawl sy'n cymryd rhan ei newid. Os nad oes modd newid unrhyw beth, nid oes rhaid ymgysylltu.
Annog a galluogi pawb yr effeithir arno i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny.	Ei hyrwyddo i ystod o randdeiliaid sydd wedi'u pennu. Mae'n bwysig bod y bobl iawn yn gwybod am yr project ymgynghori a'u bod yn cael y cyfle i ymateb, felly rhaid cynnal dadansoddiad effeithiol o randdeiliaid.
Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol.	Ei hyrwyddo'n effeithiol ac yn gymesur cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori a phan fo hynny'n ymarferol, wrth i'r project fynd rhagddo.
Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.	Chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd â phartneriaid ym mhob rhan o'r sefydliad a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.
Fydd dim jargon yn y wybodaeth a roddir, bydd yn briodol a bydd yn	Rhaid ei ysgrifennu mewn iaith blaen. Rhaid cyflwyno gwybodaeth i

ddealladwy.	drigolion mewn modd hawdd ei deall, a heb jargon, ym mhob achos.
Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan.	Ei gwneud yn bosibl ymateb drwy sawl dull.
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.	Rhoi amserlen ymateb realistig i randdeiliaid. Bydd natur yr ymarfer a'r rhanddeiliaid a bennwyd yn pennu cyfnod ymgysylltu priodol. Mewn rhai achosion efallai y bydd proses statudol neu ganllawiau swyddogol sy'n nodi hyd cyfnod ymgynghori priodol a dylid cydymffurfio â'r rhain.
Mae'r adnoddau a'r cymorth iawn ar gael at ddibenion ymgysylltu er mwyn ei wneud yn effeithiol.	Ei gynnal yn unol â gwerthoedd y Cyngor a gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.
Mae pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad.	Dilyn proses adborth sydd wedi'i diffinio'n glir. Rhaid rhoi gwybod i'r sawl a gymerodd ran yn y broses a'r cyhoedd yn gyffredinol am y canlyniadau sydd wedi dod yn sgil ymgysylltu.
Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu.	Cloi gyda phroses werthuso.

Ymgysylltu â phawb yn y gymuned

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ei gwneud yn ddyletswydd i gyrrff cyhoeddus ymgynghori â grwpiau sydd wedi'u diogelu. Maer Cyngor yn croesawu'r ddyletswydd hon ac un o'r gwerthoedd craidd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yw 'cydweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sy'n ymrwymo i wasanaethau o safon'. Mae'n hanfodol bod barnau pawb, gan gynnwys y grwpiau a ddiogelir, yn cael eu cynrychioli a'u hystyried pan wneir newidiadau i wasanaethau.

Mae 9 nodwedd a ddiogelir dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Yn ogystal â hynny, mae rhwymedigaeth gyfreithiol i gasglu a dadansoddi data cydraddoldeb, i gymryd sylw o faterion sy'n bwysig i'r grwpiau a ddiogelir, ac i roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith. Mae'r Cyngor yn rhoi camau ar waith er mwyn ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u diogelu, a disgrifir y rhain yn fanylach isod.

Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifainc (0-25 oed)

Pennwyd Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifainc. Byddwn ni, y Cyngor, yn sicrhau ein bod, wrth weithio gyda phobl 0-25 oed, yn dilyn y Safonau canlynol yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd a safonau corfforaethol y Cyngor.

1. Gwybodaeth – darparu gwybodaeth o safon sy'n glir ac sy'n hygyrch; rhoi gwybod i'r sawl sy'n cymryd rhan pwy fydd yn gwrandao arnyn nhw a'r gwahaniaeth y gallai eu cynnwys ei wneud.
2. Dewis - digon o amser a chymorth i blant a phobl ifainc i ddewis p'un a ydyn nhw am fod yn rhan.
3. Gwahaniaethu – herio achosion o wahaniaethu; darparu ystod o gyfleoedd a chymorth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

4. Parch – gwrando ar farn, profiadau a syniadau pobl ifanc a'u hystyried o ddifri; gweithio gyda nhw ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw; a rhoi gwerth ar yr hyn sydd gyda nhw i'w gynnig.
5. Manteisio arno - gweithio gyda phobl ifanc mewn ffyrdd diogel, dymunol a difyr; manteisio ar eu gwybodaeth a gwneud pethau sy'n meithrin eu hyder a'u sgiliau.
6. Adborth – sicrhau ym mhob achos eich bod yn rhoi adborth ar yr adeg y cytunoch i wneud hynny; dweud wrth bobl ifanc sut y mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio a pham; a dweud wrthyn nhw'r camau nesaf.
7. Gweithio'n well dros bobl ifanc – gweithio gyda nhw i ddysgu sut y gallwn ni wella pethau; a sicrhau bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.

Ymgysylltu â Phobl Hŷn

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi cymorth i Fforwm 50+ hir sefydledig y Fro. Mae'r fforwm yn gweithio'n lleol ac yn genedlaethol i fodloni gwahanol anghenion pobl hŷn na 50 oed ym Mro Morgannwg. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Fforwm er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael lleisio eu barn a bod ganddyn nhw'r cyfleoedd i lywio gwasanaethau lleol a rhannu eu barn . Mae'r Fforwm yn rhagweithiol ac mae'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl hŷn yn Fro'n cael y cyfle i rannu eu barn ar wahanol brojectau a gwasanaethau ac mae'n trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Ymgysylltu â grwpiau eraill a ddiogelir

Mae gan y Cyngor gyfeiriadur o sefydliadau yn y Fro sy'n cynrychioli grwpiau a ddiogelir. Mewn rhai amgylchiadau, bydd swyddogion yn mynd i gyfarfodydd i drafod cynigion gyda'r grwpiau hyn a nodi eu barn. Mae manylion am brojectau ymgynghori hefyd weithiau'n cael eu hanfon i'r sefydliadau hyn i ofyn am eu hadborth. Mae Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldebau hefyd yn

cwrdd bob chwarter i drafod a herio polisiau a chynlluniau cydraddoldebau'r Cyngor.

Cymorth Corfforaethol

Er mwyn sicrhau bod modd i bob maes gwasanaeth gynnal prosiectau ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â chanllawiau corfforaethol, rhoddir cymorth mewn sawl modd:

- Mae modd i'r Tîm Cyfathrebu roi cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig â gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn y Fro, ac mae modd iddynt roi cymorth i adrannau sy'n ymgymryd ag unrhyw fath o waith ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae rhwydwaith mewnol o swyddogion sydd wedi'u cynnwys mewn gwaith Ymgysylltu Cyhoeddus gyda chynrychiolwyr o nifer o adrannau. Mae'r swyddogion hyn hefyd yn gallu rhoi cyngor a chanllawiau ar broiectau ymgysylltu mewn nifer o feysydd gwasanaeth gan gynnwys:
 - Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - Gwasanaeth ieuenctid;
 - Tai;
 - Cymunedau yn Gyntaf;
 - Addysg;
 - Busnesau lleol;
 - Cymunedau gwledig a
 - Phlant a theuluoedd.
- Drwy ddefnyddio'r cyfeiriadur o grwpiau gwirfoddol a chydraddoldeb yn y Fro, mae modd cael barn grwpiau a ddiogelir.

Mae tudalennau ymgynghori gwefan y Cyngor a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn foddau gwych i hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltu cyhoeddus, ac i gael adborth, heb gost.

Yn ogystal â'r systemau cymorth sydd eisoes ar waith, mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyngor Bro Morgannwg (Atodiad A) yn amlinellu'r gwaith a wneir yn y dyfodol agos i wella'r lefel o gymorth i bob gwasanaeth, ac i ddatblygu ar yr arfer da sydd eisoes wedi'i sefydlu.

Cyfrifoldeb a Rennir

Bydd safonau corfforaethol yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd sy'n cyflawni ein rhwymedigaethau corfforaethol. Serch hynny, er y gall canolfan gorfforaethol sefydliad arwain y prosiectau ymgysylltu â'r cyhoedd mwyaf, a rhoi cymorth a goruchwyllo, pob aelod o staff sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal. Dylai'r canllaw cam wrth gam isod gynnig cyngor ymarferol ar yr hyn i'w ystyried cyn yr ymglymerir ag ymgynghoriad neu ymgysylltiad.

1. Lluniwch amserlen ymgysylltu neu ymgynghori – oes angen adrodd y canlyniadau i'r Cabinet neu yng nghyfarfod llawn y Cyngor? Os felly, nodwch y cyfarfod perthnasol a'i lunio gyda hwnnw mewn golwg. Neilltuwch o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad statudol neu o leiaf 6-8 wythnos ar gyfer ymgynghoriadau ar broiectau eraill.
2. Meddyliwch am yr wybodaeth y mae angen ei chasglu a nodwch ddulliau o gasglu'r wybodaeth hon, e.e. arolygon, sesiynau galw heibio, sesiynau cwestiwn ac ateb neu gyfweiliadau un wrth un. Sut caiff y wybodaeth ei dadansoddi?
3. Beth gwyddom ni eisoes - beth a wnaethpwyd yn y gorffennol.
4. Pwy y mae'n rhaid eu cynnwys – oes modd ymgymryd â hyn heb gymorth y tîm cyfathrebu neu bencampwyr ymgysylltu eraill?
5. Adnoddau - oes cyllideb ar gael i dalu'r gost o logi lleoliad ar gyfer sesiwn galw heibio? Allwch chi ddarparu lluniaeth, neu rywbeth a fydd yn annog pobl i gwblhau arolwg?

6. Adborth – meddyliwch am y ffordd y byddwch chi'n rhoi gwybod i gyfranogwyr am ganlyniad y project.

Rhagor o Ganllawiau

I gael rhagor o wybodaeth neu arweiniad ar ymgysylltu â'r cyhoedd, gweler y dolenni isod.

- [Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol](#) dros Blant a Phobl Ifanc
- [New Conversations : LGA guide to engagement](#)
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – [Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#)
- Cyngor Bro Morgannwg – [Pecyn Cymorth Mapio Cymunedau](#)
- Participation Cymru – [Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#)

Atodiad A – Cynllun Gweithredu

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i wella'n barhaus y modd yr ydym yn ymgysylltu â'n preswylwyr a'n rhanddeiliaid allweddol wrth wneud penderfyniadau. Bwriad y cynllun gweithredu hwn yw sefydlu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Gweithredoedd	Meini Prawf Llwyddiant/Canlyniadau	Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad dechrau a gorffen
Datblygu cyfarwyddiadur ar-lein o waith ymgysylltu	Cyfarwyddiadur ar gael ar staffnet a fydd yn galluogi swyddogion i rannu canlyniadau eu projectau, sôn am brojectau sydd ar y gweill a bwydo adroddiadau perfformiad blynyddol.	Pennaeth Perfformiad a Datblygu	01/12/2017 – yn mynd rhagddo
Sefydlu rhwydwaith fewnol o swyddogion sy'n ymwneud ag ymgysylltiad cyhoeddus.	Rhwydwaith o swyddogion i hysbysu ei gilydd ynghylch projectau drwy gyfrwng cyfarwyddiadur ymgysylltu a chyfarfodydd achlysurol. Gwneud y gorau o weithio ar y cyd	Pennaeth Perfformiad a Datblygu	01/11/2017 – yn mynd rhagddo
Cadw cofnod ar-lein o ddigwyddiadau ymgynghori	Eistedd o dan yr 'hyb ymgysylltu' ar staffnet, er mwyn i swyddogion ymuno a digwyddiadau eraill.	Swyddog Cyfathrebu - Ymgysylltiad	01/01/2018 – yn mynd rhagddo
Sefydlu cyswllt â grwpiau cymunedol	Adeiladu ar waith mapio cymunedol i ymgysylltu â grwpiau cymunedol sy'n gweithredu ledled y Fro.	Swyddog Cyfathrebu - Ymgysylltiad	01/04/18
Datblygu dull o gyfathrebu a grwpiau cymunedol.	Arbrofi gyda defnyddio grwpiau Facebook neu restr ddosbarthu e-bost i gadw mewn cyswllt â grwpiau cymunedol.	Swyddog Cyfathrebu - Ymgysylltiad	01/08/2018 – yn mynd rhagddo
Datblygu cyfarwyddiadur ymgysylltu cyfle cyfartal	Cadw cyfarwyddiadur wedi ei ddiweddarau o sefydliadau lleol yn cynrychioli grwpiau wedi eu diogelu. Rhannwch y wybodaeth yma ar staffnet a gyda swyddogion	Swyddog Cyfathrebu - Ymgysylltiad	01/10/2017 – yn mynd rhagddo

	ymgysylltu eraill.		
Mabwysiadu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc yn ffurfiol.	Y Cabinet i gymeradwyo'r Safonau	Swyddog Cyfranogiad leuenctid	Clwbhau erbyn 31/03/18
Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r ymrwymadau i alluogi pobl i gymryd rhan fwy, fel y manylir arnynt yn y Cynllu Lles	Ymagwedd cydgysylltiedig at ymgysylltu ar draws partneriaid BGC	Pennaeth Perfformiad a Datblygu	01/11/2017 – yn mynd rhagddo